**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CABINET**

**SUBJECT:** **CABINET - DYDD MERCHER, 22 CHWEFROR 2023**
**DYDD MERCHER, 22 CHWEFROR 2023**

**REPORT OF:**

---

PRESENT:

Councillors S. Thomas
H. Cunningham
J. C. Morgan
H. Trollope

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD** | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb gan:-<br><br>Cynghorydd S. Edmunds<br>Prif Swyddog Cwsmeriaid a Masnachol | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **CYLLIDEB REFENIW 2023/2024**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Cynigiodd yr Arweinydd dderbyn adrannau 3.1.1 i 3.1.3 Opsiwn 1 a'u bod yn cael eu hargymell i'r Cyngor a gohirio adrannau 3.1.4 i 3.1.8 Opsiwn 1 nes y | |

| | | |
|---|---|---|
| | cânt eu hystyried ymhellach yng Nghyfarfod Arbennig y Cyngor a drefnir ar gyfer dydd Iau 23 Chwefror 2023. Cafodd y cynnig hwnnw ei eilio.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a bod<br><br>• Aelodau yn argymell cyllideb refeniw 2023/24 i'r Cyngor fel y'i manylir yn y tabl ym mharagraff 5.1.15 yr adroddiad;<br><br>• rhoi sylwadau ar y deilliannau o fewn Setliad darpariaethol y Grant Cefnogi Refeniw a nodi'r potensial ar gyfer newid pellach yn setliad terfynol y Grant Cefnogi Refeniw (paragraffau 2.6 – 2.17);<br><br>• rhoi sylwadau ar y deilliannau o fewn setliad Grant Cefnogi Refeniw darpariaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac effaith hynny ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol (paragraffau 2.18 – 2.26);<br><br>• gohirio penderfyniadau yn gysylltiedig â'r eitemau pwysau cost a thwf wedi eu diweddaru (cyfanswm o £3.22m) a ddynodwyd yn Atodiad 2 (paragraffau 5.1.10 – 5.1.16) i'w hystyried yng Nghyfarfod Arbennig y Cyngor ar 23 Chwefror 2023;<br><br>• gohirio penderfyniadau yn gysylltiedig gyda chynnydd o £1.5m sy'n gyfwerth â chynnydd o 3% yn yr ISB (paragraffau 5.1.17 i 5.1.24) i'w hystyried yng Nghyfarfod Arbennig y Cyngor ar 23 Chwefror 2023;<br><br>• gohirio penderfyniadau yn gysylltiedig gyda chynigion Pontio'r Bwlch yn rhoi arbedion ariannol a thoriadau i'r gyllideb o £4.18m tuag at fwlch y gyllideb (paragraffau 5.1.25 i 5.1.32) i'w hystyried yng Nghyfarfod Arbennig y Cyngor ar 23 Chwefror 2023;<br><br>• gohirio penderfyniadau yn gysylltiedig a defnyddio cronfeydd wrth gefn o £2.5m i gydbwyso'r gyllideb ar gyfer 2023/2024 (paragraff 5.1.33 i 5.1.35) i'w hystyried yng Nghyfarfod Arbennig y Cyngor ar 23 Chwefror 2023; a<br><br>• gohirio penderfyniadau yn gysylltiedig a chynnydd o 4% yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2023/24 (paragraff 5.1.7) fel yn nhybiaethau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol i'w hystyried yng Nghyfarfod Arbennig y Cyngor ar 23 Chwefror 2023. | |